



CYNGOR TREF LLANBEDR POT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYLLID
17.01.2019 NEUADD VICTORIA, LLANBEDR PONT STEFFAN
AM 7.00YH.

1. CROESAWYD PAWB GAN Y CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Croesawyd pob un oedd yn bresennoli'r cyfarfod gan Y Maer Cyng. Ann Morgan

2. PRESENNOL

Y Maer Cyng. Ann Morgan, Y Dirprwy-Faer Cyng. Robert Phillips, Cyng. Kistiah Ramaya, Cyng. Chris Thomas, Cyng. R. G. (Hag) Harris & Cyng. Selwyn Walters.

Meryl Thomas – Clerc y dre

Carol Thomas – Cyfieithydd ar y pryd

Derek Marshall - Archwilydd Mewnol

YNDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyng. Dave Smith, Cyng. Rhys Bebb Jones, Cyng. Helen Thomas, Cyng. Elin T Jones, Cyng. Emma Wood & Cyng. Dinah Mullholland

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL - Dim

4. ADRODDIAD CYLLIDEB 2019-20 –

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad ar y gyllideb i'r Cyngor i'w ystyried. Dywedodd yr Archwilydd Mewnol Derek Marshall y dylid cynnwys y lwfans o £150.00 sydd ar gael i bob cynghorydd bob blwyddyn yn yr adroddiad ar y gyllideb gan y gallai fod yn £2100.00. Anfonir nodyn atgoffa at bob cynghorydd yn nodi bod yn rhaid iddynt ysgrifennu at y C Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhyddhau adroddiad lle'r oedd pryderon ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan gynghorau tref. Dywedodd y Dirprwy Faer y Cyng. Rob Phillips bod y cronfeydd wrth gefn ar gyfer Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn lleihau bob blwyddyn. Dywedodd y Cyng. Hag Harris y byddai'n ffôl i wario'r holl gronfeydd wrth gefn a bod eu hangen ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Dywedodd y Cyng. Kistiah Ramaya na fyddem wedi gallu trefnu'r blodau yn y dref a'r goleuadau Nadolig os nad ar gyfer y cronfeydd wrth gefn a hefyd efallai y byddai angen y cronfeydd wrth gefn pe bai'r system CCTV yn cael ei hadfer. Ierc erbyn y cyfarfod nesaf os nad ydynt yn dymuno derbyn y lwfans.

Cynigiodd y Dirprwy Faer, Rob Phillips, brynu gliniadur newydd gyda storfa allanol i

gymryd lle'r cyfrifiadur pen desg sydd dros 4 oed, ac roedd pawb wedi cytuno ar hyn.

Awgrymodd y Cynghorydd Chris Thomas gronfa ad-dalu ar gyfer atgyweirio offer mewn Parc. Dywedodd Derek Marshall y byddai hyn yn syniad da i ddyrannu arian ar gyfer gwaith atgyweirio. Dywedodd y Cyng. Selwyn Walters bod ein holl gronfeydd wrth gefn yn gronfa ad-dalu gan ei bod yno ar gyfer unrhyw atgyweiriadau sydd angen eu gwneud. Cytunwyd i ddyrannu 10% o gost gwaith atgyweirio Parc yr Orsedd a'r Nadolig yn ystod y flwyddyn. Nodyn i'w gynnwys mewn cyfrifon a chofnodion i gadarnhau bod gennym gronfa ad-dalu ar gyfer gwaith atgyweirio. Bydd angen cronfeydd wrth gefn os bydd Cyngor y dref yn cymryd yr awenau ar brydles ardal chwarae Maesyfelin.

PRAESEPT 2019-20 –

Gwnaeth y Cyng. Hag Harris cynnig ac eiliwyd gan y Dirprwy-Faer y Cyng. Rob Phillips i gadw'r praesept yr un fath â'r flwyddyn flaenorol h.y. £41,000.00, a chytunwyd arno gan bawb oedd yn bresennol. Bydd y Clerc yn llenwi'r ffurflen praesept ac yn ei chyflwyno i CSC.

Teimlai'r Aelod y gellid talu'r costau rhedeg o fewn y gyllideb. Gellid priodoli'r ffaith bod y praesept wedi aros yr un fath i'r ffordd ddarvoudus yr oedd Cyngor y dref wedi ymdrin â'r cyllid.

5. ADNEWYDDU POLISI YSWIRIANT Y CYNGOR TREF –

Y Clerc i gysylltu â'r cwmni yswiriant er mwyn ychwanegu'r £12,000.00 a wariwyd ar y cyfarpar chwarae ym Mharc yr Orsedd i'r polisi ac yna i adnewyddu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

6. UFA

Bydd y bond o £70,000.00 a ddelir yn Lloyds yn aeddfedu ym mis Ionawr, y Clerc i edrych i mewn i gyfraddau llog ar gyfer ailfuddsoddi.

Gofynnodd y Clerc a fyddai'n bosibl trefnu i fancio ar y rhyngwrwyd gael ei osod ar y cyfrif cyfredol. Cytunodd pawb i'r Clerc drefnu hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 yh.